| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 20ed Tachwedd 2015 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA |
| **GWEITHREDU**: | Ystyried yr adroddiad |

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu'r Cyd-Bwyllgor AAA yn ystod Tymor y Haf, 2015.

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

## 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Mae'r swydd Rheolwr Gwasanaeth bellach wedi ei llenwi ar sail secondiad blwyddyn a dechreuodd y swyddog newydd yn ei swydd ym mis Awst eleni.

Ym mis Hydref, cyflwynodd ddwy o'r cymorthyddion gweinyddol eu hymddiswyddiad, sy'n 1.4 o'r cyfwerth o 3 cymhorthydd llawn amser. Bydd y cymhorthydd 0.4 yn ymddeol ddiwedd y flwyddyn, tra mae'r cymhorthydd llawn amser wedi ei phenodi i swydd newydd barhaol a bydd yn gadael y CBAAA ddechrau mis Rhagfyr.

Ar hyn o bryd nid oes bwriad i lenwi'r swydd 0.4 ond gobeithir hysbysebu'n fuan i lenwi'r swydd llawn amser am gyfnod dros dro.

Yn y cyfamser bydd angen i weddill y tîm ysgwyddo baich gwaith y ddwy fydd wedi ein gadael.

## 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Mae newidiadau i'r timau athrawon arbenigol wedi cymryd lle ers y cyfarfod diwethaf.

Yn y gwasanaeth clyw, rydym yn parhau efo tîm cryf, gyda thair athrawes gymwysedig, cyfwerth â 2.6 llawn amser, ynghyd ag athrawes lawn amser heb gymwysterau sydd yn hyfforddi ar hyn o bryd. Bydd un o'r athrawon yn ymddeol Nadolig, ac rydym wedi colli gwasanaeth cymhorthydd oedd yn hyddysg iawn mewn arwyddo, ond er hynny, byddwn ni hefo tîm o gyfanswm o 2.7 athrawes o Nadolig ymlaen.

Yn y gwasanaeth golwg, rydym yn gweithredu gydag un athrawes gymwysedig dros y ddau awdurdod (sydd yn cael un diwrnod yr wythnos o gymorth - 0.2 - gan athrawes brofiadol iawn fel trefniant dros dro) ac mae athrawes arall sydd yn hyfforddi ar hyn o bryd. Mae felly cyfwerth o 2.1 athrawes yn y gwasanaeth golwg. Mae gennym hefyd dwy gymhorthwraig gymwysiedig, cyfwerth â 1.6 llawn amser, sydd â lefel Braille uchel.

Mae toriadau wedi bod yn y gwasanaeth iaith a chyfathrebu, ac awtistiaeth yn enwedig. Rydym efo dwy athrawes yn y maes hwn, sef cyfwerth â 1.8 llawn amser, ac wedi colli dwy arall, sef cyfwerth ag 1.0 llawn amser.. Rydym hefyd wedi colli gwasanaeth cymhorthydd profiadol, oedd ar secondiad gan Wynedd. Mae'r tim yn ei ffeindio'n anodd iawn i gwrdd ag anghenion pawb ar draws y ddau awdurdod ar hyn o bryd.

Yn y gwasanaeth anawsterau corfforol a meddygol, mae gennym ddwy athrawes o hyd, un llawn amser ac un arall, sydd yn brofiadol iawn, sydd yn gweithio i'r gwasanaeth am 0.3 llawn amser (gan roi 0.2 i'r gwasanaeth golwg).

## 3.0 Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Yn y gwasanaeth seicoleg addysgol rydym yn parhau i weithio gyda llai o staff nag sydd gennym fel arfer, gydag un uwch seicolegydd ar secondiad i Wynedd ar hyn o bryd. Mae dau seicolegydd rhan amser wedi gadael y gwasanaeth sydd yn ein galluogi i gynnal dwy seicolegwraig tan hyfforddiant ar y cwrs proffesiynol yng Nghaerdydd.

Rydym yn parhau i weithredu system lle mae pob ysgol gyda'i seicolegydd dynodedig, a threfnu nifer o sesiynau i bob ysgol, ac yn ceisio gwneud newidiadau i'r system hon i sicrhau tegwch i bob ysgol. Ar hyn o bryd, mae gan blentyn sydd mewn ysgol fach iawn fwy o gyfle ar gyfartaledd i dderbyn sylw gan seicolegydd.

Mae cyfwerth a 5.9 seicolegydd ar hyn o bryd (deg unigolyn). Ond mae gennym hefyd wasanaeth seicolegydd tan hyfforddiant brofiadol, sydd ar y cwrs hyfforddiant yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, ac yn gallu cymryd rhai o'r ysgolion o dan oruchwyliaeth.

Bydd y darpar-seicolegydd hon wedi ei chymhwyso haf 2016, ac mewn amgylchiadau ariannol mwy ffafriol byddai'r tîm yn falch iawn o ystyried a fyddai modd ei chyflogi.

## 4.0 Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o ddatganiadau terfynol a gyhoeddwyd o fewn yr amserlen statudol o 26 wythnos yn ystod y flwyddyn academaiddd 2014/15 (Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol).

| **Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Gwynedd Flwyddyn Academaidd 2014/15** | | ffigurau 2013 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 49 | *85* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 14 | *33* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi | 20 | *18* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol | 15 | *33* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA) | 0 | *1* |
| Dangosydd Perfformiad 15a:<br>O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y flwyddyn, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? | 48.3% | *60%* |
| Dangosydd Perfformiad 15b:<br>O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos? | 100% | *95%* |

| Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Ynys Môn Flwyddyn Academaidd 2014/15 | | ffigurau 2013 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 37 | *36* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 15 | *13* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi | 6 | *8* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol | 15 | *14* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA) | 1 | *1* |
| Dangosydd Perfformiad 15a:<br>O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y flwyddyn, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? | 50% | *58%* |
| Dangosydd Perfformiad 15b:<br>O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos? | 85.7% | ***89%*** |

Mae'r nifer o ddatganiadau newydd yng Ngwynedd yn sylweddol llai na'r flwyddyn ddiwethaf, ond nid yw hyn wedi newid yn Ynys Môn.

Rydym yn cynhyrchu datganiad ar sail sawl adroddiad yn cynnwys adroddiadau meddygol. Mae'r rhai sydd yn 'hwyr gydag eithriad' yn hwyr oherwydd nad ydym wedi derbyn rhai o'r adroddiadau hyn mewn pryd.